O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2409 (Cy. 259)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 42, Earlswood, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*18 Medi 2012*
Yn dod i rym	*1 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 42, Earlswood, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau o Draffordd yr M4 ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.